# Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio

Egwyddorion a dulliau argymhellion Ofcom

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 4 Chwefror 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 18 Mawrth 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Gweithredu Rhan 6 ... 5
3. Sut mae gwrando ar y radio yn newid ... 7
4. Egwyddorion a dulliau ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ... 11


## Atodiad


A1. Datganiad Drafft o Egwyddorion a Dulliau ... 16

A2. Fframwaith Cyfreithiol ... 20

A3. Asesiadau effaith ... 25

A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ... 27

A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ... 30

A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ... 31

A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad ... 33

# 1. Trosolwg

Mae radio yn dal yn boblogaidd iawn yn y DU, gyda bron i 9 person o bob 10 yn gwrando ar wasanaeth radio bob wythnos.[1] Mae mwy a mwy o'r gwrando hwn yn digwydd drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais fel seinyddion clyfar, ffonau clyfar, neu systemau adloniant yn y car.[2] Mae ffrydio gwasanaethau radio ar-lein yn cynrychioli dros chwarter yr holl wrando byw ar y radio, sydd wedi mwy na dyblu dros y pum mlynedd diwethaf.[3]

Yng ngoleuni hynny, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno set o reolau am y tro cyntaf sy'n ceisio sicrhau bod ffrydiau ar-lein o wasanaethau radio sy'n cael eu darlledu ar gael drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais.

## Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn newid y dirwedd rheoleiddio darlledu

Y Ddeddf Cyfryngau yw'r diweddariad mawr cyntaf i ddeddfwriaeth cyfryngau ers 20 mlynedd. Mae'n cyflwyno darpariaethau i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i ddiogelu argaeledd radio'r DU ar ddyfeisiau sain cysylltiedig, gan adlewyrchu'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad Sain a Radio Digidol 2021 ar draws y diwydiant a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2021. Mae'n golygu rheoleiddio rhai gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu hysgogi gan lais – gwasanaethau dethol radio, neu RSS – sydd wedi cael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol ('DRSS'). Mae'n mynnu bod DRSS yn darparu ffrwd ar-lein ddibynadwy o wasanaeth radio darlledu yn y DU mewn ymateb i orchymyn llais defnyddiwr, ymysg gofynion eraill.

Mae gan Ofcom nifer o rolau mewn perthynas â'r fframwaith rheoleiddio newydd hwn ar gyfer ffrydiau radio ar-lein. Ein rôl gyntaf yw rhoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n argymell pa wasanaethau dethol radio y dylid eu dynodi. Cyn inni lunio'r adroddiad hwnnw, rhaid inni ddatblygu set o egwyddorion a dulliau y byddwn yn eu defnyddio i lunio argymhellion yr adroddiad. Rhaid i ni gyhoeddi'r rhain ar ffurf datganiad ar ein gwefan. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd i benderfynu pa rai o'r RSS sydd ar gael yn y DU sydd i'w dynodi.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer yr egwyddorion a'r dulliau hyn. Mae ein Datganiad o Egwyddorion a Dulliau drafft yn Atodiad 1 yr ymgynghoriad hwn.

Yn ogystal â chwestiynau'r ymgynghoriad, rydym wedi gofyn cwestiwn atodol. Mae hwn yn gofyn am farn ar ein syniadau diweddaraf ar ffynonellau data priodol i fesur defnydd ac i bennu'r trothwy ar gyfer yr argymhellion yn ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol.[4] Rydym yn bwriadu ystyried unrhyw wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r cwestiwn hwn at y diben hwnnw.

Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **18 Mawrth 2025**. Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi Datganiad terfynol o Egwyddorion a Dulliau cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

---

[1] RAJAR Ch3 2024
[2] Ibid
[3] Ibid
[4] Mae cwestiynau'r ymgynghoriad a'r cwestiwn atodol wedi'u hamlinellu yn Adran 4 ac mae rhestr gryno yn Atodiad 7.

Byddwn wedyn yn ymgynghori ar ein hargymhellion arfaethedig cyn cyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig cyfres o egwyddorion a dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth lunio adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol gydag argymhellion ar gyfer dynodi RSS.

Mae'r egwyddorion a'r dulliau hyn yn adlewyrchu'r materion canlynol y mae'n rhaid i ni eu hasesu wrth baratoi ein hadroddiadau:

- Nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth: Wrth fesur nifer y defnyddwyr yn y DU, byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Gall hyn olygu defnyddio procsi os ydym o'r farn na ellir mesur niferoedd defnyddwyr unigol yn ddibynadwy.
- Y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio: Rydym yn cynnig y byddwn yn ystyried yn gyffredinol y gwahanol ffyrdd y gellir defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd wrth ystyried y ffordd mae pobl yn defnyddio RSS.
- A yw lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn sylweddol: Wrth benderfynu a yw lefel y defnydd o RSS yn sylweddol, rydym yn cynnig defnyddio trothwy meintiol. Wrth benderfynu a yw lefel y defnydd yn sylweddol, byddwn yn ystyried a yw ein penderfyniad yn cyfrannu at yr amcan polisi i wneud gwasanaethau radio rhyngrwyd ar gael yn eang i ddefnyddwyr RSS. Rydym hefyd yn cynnig penderfynu ar ein trothwy mewn ffordd gymesur, gan ystyried y bydd dynodi RSS yn rhoi rhwymedigaethau ar ddarparwyr RSS, wrth wneud ein hargymhelliad.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Gweithredu Rhan 6

2.1 Mae radio yn boblogaidd iawn yn y DU, gyda bron i 51 miliwn o bobl yn gwrando am 20.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd.[5] Yn ogystal â darparu adloniant a chefndir i fywydau pobl, mae gan radio rôl bwysig o ran darparu newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a helpu cymunedau i gysylltu. Mae hefyd yn rhoi sianel gyfathrebu i rannu gwybodaeth leol, fel cau ysgolion neu ddigwyddiadau, gan gefnogi'r gwaith o gynnwys pobl nad ydynt yn defnyddio sianeli cyfathrebu digidol eraill fel cyfryngau cymdeithasol.

2.2 Ond mae'r ffordd mae pobl yn cael gafael ar radio yn newid. Mae mwy a mwy o'r gwrando hwn yn digwydd dros y rhyngrwyd, mae rhywfaint o hynny'n cael ei wneud drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais fel seinyddion clyfar, ffonau clyfar, neu systemau adloniant yn y car.[6] Mae gwrando ar wasanaethau radio sy'n cael eu ffrydio ar-lein yn cynrychioli dros chwarter yr holl wrando byw ar y radio, mae'r gyfran hon wedi mwy na dyblu dros y pum mlynedd diwethaf.[7] Yn yr asesiad effaith ar gyfer y rhan hon o'r Ddeddf Cyfryngau, mae'r llywodraeth yn nodi'r rhesymeg dros newid y cwmpas rheoleiddio: "O ystyried y risg o newid y cydbwysedd pŵer rhwng llwyfannau a gorsafoedd, mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn cymryd camau i sicrhau bod mynediad gwrandawyr at radio ar draws y dyfeisiau hyn yn cael ei ddiogelu dros y blynyddoedd i ddod."[8]

2.3 I gydnabod y newidiadau yn y dirwedd hon, mae'r Ddeddf Cyfryngau, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2024, yn golygu bod yn rhaid rheoleiddio'r gwasanaethau ar-lein hynny sy'n cael eu hysgogi gan lais sy'n gallu ffrydio gwasanaethau radio rhyngrwyd ('gwasanaethau dethol radio' neu 'RSS') sydd wedi cael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol.[9] Mae'n mynnu, ymysg pethau eraill, bod RSS dynodedig ('DRSS') yn darparu ffrwd ar-lein ddibynadwy o wasanaeth radio darlledu yn y DU mewn ymateb i orchymyn llais defnyddiwr.

2.4 Yr ymgynghoriad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau ar weithredu Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau. Yn yr adran hon rydym yn amlinellu'n gryno ein rôl mewn perthynas â dynodi RSS a'r camau gweithredu dilynol. Mae ein dyletswyddau rheoleiddio perthnasol yn cael eu crynhoi yn Atodiad 2, sy'n cynnwys disgrifiad o'r fframwaith cyfreithiol i ddynodi RSS a'r dyletswyddau rydym wedi eu hystyried wrth ddatblygu ein hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig.

## Dynodi gwasanaethau dethol radio

2.5 O dan y Ddeddf, mae dynodi RSS yn benderfyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol, er ei fod ond yn cael dynodi'r gwasanaethau dethol radio hynny mae'n credu sydd â lefel "sylweddol" o ddefnydd ar gyfer gwrando ar radio rhyngrwyd.[10] I lywio ei benderfyniad, rhaid cael adroddiad gan Ofcom sy'n cynnwys ein hargymhellion ynghylch pa wasanaethau i'w dynodi ac yna ymgynghori â rhanddeiliaid.[11] Mae'r Ddeddf yn nodi'r ffactorau mae'n rhaid i ni eu

[5] RAJAR Ch3 2024
[6] Ibid
[7] Ibid
[8] Asesiad effaith rheoleiddio gwasanaethau radio ar draws llwyfannau cynorthwywyr llais, tudalen 1
[9] Rhan 6 o'r Ddeddf
[10] Adran 362BB o'r Ddeddf
[11] Adran 362BC o'r Ddeddf

hystyried wrth wneud ein hargymhellion – trafodir y rhain yn fanylach yn Adran 4 ond, yn gryno, maent yn cynnwys nifer y bobl sy'n defnyddio RSS a'r ffordd maent yn gwneud hynny. Mae hefyd yn agored i ni baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw adeg arall y credwn sy'n briodol.

2.6 Cyn i ni gynhyrchu'r adroddiad hwn, mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn gyntaf yn datblygu cyfres o egwyddorion a dulliau y byddwn yn eu dilyn wrth baratoi ein hadroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol.[12] Gallwn adolygu a diwygio ein hegwyddorion a'n dulliau pan fyddwn yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae Adran 4 yr ymgynghoriad hwn yn egluro sut rydym wedi llunio ein Datganiad o Egwyddorion a Dulliau arfaethedig, ac mae drafft ohono yn Atodiad 1. Mae ein hasesiad o effaith bosibl ein cynigion yn Atodiad 3.

2.7 Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu a ddylid dynodi a pha RSS i'w ddynodi, byddwn yn parhau i fod â rôl o ran darparu adroddiadau ar ddynodiadau pellach neu ddirymiadau posibl, cadw rhestr o DRSS ar ein gwefan,[13] ac o ran llunio a chadw golwg ar wybodaeth sy'n berthnasol i ddynodiad a'r posibilrwydd o ddirymu dynodiad.[14]

## Y broses hysbysu i wasanaethau radio rhyngrwyd a chyhoeddi Cod Ymarfer

2.8 Y tu hwnt i ddarparu argymhellion i ddynodi RSS, mae gan Ofcom ddwy rôl arall.

2.9 Yn gyntaf, mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i DRSS, ymysg pethau eraill, gymryd "pob cam rhesymol" i sicrhau bod gwasanaethau radio sy'n cael eu ffrydio ar gael, heb dorri ar eu traws na'u rhagflaenu gyda hysbysebion, yn amodol ar ddewisiadau defnyddwyr, a sicrhau, pan ofynnir amdanynt, bod ffrydiau'n cael eu darparu drwy'r "dull penodol" a bennir gan ddarparwr y ffrwd.[15] Rhaid i Ofcom ddarparu canllawiau, ar ffurf Cod Ymarfer, ynghylch sut gall DRSS gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn.[16]

2.10 Yn ail, rhaid i ni sefydlu proses ar gyfer y gwasanaethau radio rhyngrwyd ('IRS') hynny – a elwir yn wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol ('RIRS') – sy'n dymuno elwa o'r drefn newydd i gofrestru ar restr y byddwn yn ei chynnal. Rhaid i ddarparwyr IRS gyflawni dau faen prawf i gymhwyso i fod yn "berthnasol" – rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad i ni a'n bodloni bod ganddynt "system neu broses effeithiol" ar waith i sicrhau bod eu ffrwd ar-lein yn "cyfateb"[17] i wasanaeth radio yn y DU a ddarperir gan y BBC neu o dan drwydded ddarlledu a gyhoeddir gan Ofcom.[18] Bydd ein proses hysbysu yn egluro sut gall darparwyr IRS wneud hynny.

2.11 Bydd ymgynghoriadau ar y rhain yn y dyfodol yn 2025. Mae ein cynlluniau presennol i amseru'r ymgynghoriadau hyn ar gael yn [yr amserlen ryngweithiol] ar ein gwefan.

---

[12] Adran 362BC (5) y Ddeddf
[13] Adran 362BE o'r Ddeddf
[14] Adran 362BZ1 o'r Ddeddf
[15] Adran 362BI o'r Ddeddf
[16] Mae Adrannau 362BI, 362BK, 362BL a 362BM o'r Ddeddf yn cyfeirio at y Cod Ymarfer.
[17] Mae ystyr "cyfateb" wedi'i nodi yn adran 362BG(4) o'r Ddeddf.
[18] Mae adrannau 362BF a 362BG o'r Ddeddf yn cyfeirio at ystyr gwasanaeth radio rhyngrwyd a gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol a rhestr a gedwir gan Ofcom.

# 3. Sut mae gwrando ar y radio yn newid


## Radio a gwrando ar-lein

### Mae gwrando ar y radio ar-lein yn cyfrif am gyfran gynyddol o wrando ar y radio yn gyffredinol

3.1 Mae radio yn dal yn ffynhonnell allweddol o newyddion, gwybodaeth ac adloniant i bobl ledled y DU, gyda bron i 51 miliwn o oedolion (88.3%) yn gwrando ar radio byw bob wythnos.[19] Mae'r ffigur hwn wedi aros yn weddol gyson, gan hofran rhwng 87% a 91% o oedolion bob chwarter dros yr ugain mlynedd diwethaf.[20]

3.2 Er bod y cyrhaeddiad yn dal yn uchel, mae'r ffordd mae pobl yn gwrando ar y radio wedi esblygu dros amser. Fel mae Ffigur 1 yn ei ddangos, mae gwrando ar DAB wedi cynyddu'n raddol dros y chwe blynedd diwethaf ac erbyn hyn mae'n cyfrif am y gyfran fwyaf o wrando ar y radio. I'r gwrthwyneb, mae'r nifer sy'n gwrando ar AM/FM wedi haneru dros yr un cyfnod. Erbyn hyn mae mwy yn gwrando ar radio sy'n cael ei ffrydio dros y rhyngrwyd nag ar AM/FM, ac mae'r rhan fwyaf yn gwrando drwy seinyddion clyfar (17% o gyfanswm y gwrando ar y radio) gyda'r gweddill drwy amrywiaeth o ddyfeisiau eraill gan gynnwys ffonau clyfar a gliniaduron (11%).

**Ffigur 1: Cyfanswm yr oriau a chyfran yr holl wrando ar y radio yn ôl llwyfan, 2018-2024**





*Ffynhonnell: RAJAR. Sylwer: mae'r llinell ddotiog yn nodi gohirio gwaith maes o ddiwedd Ch1 2020 tan Ch3 2021 oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19. Arweiniodd hyn at newidiadau dilynol mewn methodoleg, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu â chwarteri blaenorol. Teledu digidol yw DTV – mae ymatebwyr yn dosbarthu eu gwrando felly gall gynnwys rhywfaint o IPTV.*

[19] RAJAR Ch3 2024
[20] Ibid

3.3 Mae lle mae pobl yn gwrando yn ffactor pwysig yn y llwyfannau maen nhw'n eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r gwrando ar y radio yn digwydd gartref (62%) tra bo ychydig dros chwarter (26%) yn digwydd mewn cerbydau ac mae 12% yn y gwaith neu rywle arall.[21] Mae bron i ddwy ran o dair o'r gwrando mewn ceir yn digwydd drwy DAB, gyda'r gweddill yn bennaf drwy AM/FM. Er bod y gallu i ffrydio sain ar-lein mewn cerbydau yn dod yn fwyfwy cyffredin,[22] mae gwrando ar radio mewn ceir dros y rhyngrwyd wedi aros yn gymharol isel a sefydlog dros y tair blynedd diwethaf.[23]

**Ffigur 2: Cyfran gwrando ar y radio yn y car yn ôl llwyfan, 2019-2024**




*Ffynhonnell: RAJAR; gwrando 'Mewn car/fan/lori'; mae'r llinell ddotiog yn dangos bod gwaith maes wedi'i ohirio neu fod y fethodoleg wedi newid. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu â chwarteri blaenorol.*

## Rheoli gyda llais

3.4 Ochr yn ochr â'r cynnydd mewn gwrando ar-lein, mae gwahanol fathau o ddyfeisiau cysylltiedig yn galluogi mwy a mwy o ddefnyddwyr i ofyn am radio ar-lein gan ddefnyddio eu llais. Dros y degawd diwethaf, mae swyddogaethau rheoli llais wedi ehangu i seinyddion clyfar, ffonau clyfar, cyfrifiaduron, setiau teledu wedi'u cysylltu (fel rhan o'r teledu neu drwy ffon deledu glyfar neu flwch pen set), llywio mewn cerbydau, a thechnoleg y gellir ei gwisgo fel oriawr glyfar. Mae'n rhoi manteision i ddefnyddwyr fel hwylustod heb orfod defnyddio eu dwylo, gwell hygyrchedd a diogelwch (yn enwedig mewn ceir).

3.5 Mae systemau rheoli gyda llais yn defnyddio algorithmau Prosesu Iaith Naturiol, sy'n trosi lleferydd yn destun mae'r cynorthwyydd llais yn gallu ei ddehongli. Os yw'n dehongli cais fel cais am wasanaeth radio rhyngrwyd, mae'n dod o hyd i'r allbwn sain. Gallai hyn fod gan wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y llwyfan ei hun a/neu wasanaethau ac apiau trydydd parti (fel apiau neu wasanaethau'r gwasanaethau radio rhyngrwyd eu hunain neu rhai cwmnïau eraill sy'n cyfuno ffrydiau radio). Mae wedyn yn ffrydio'r allbwn sain i seinyddion y ddyfais. Mae rhai systemau rheoli gyda llais yn integreiddio Modelau Iaith Mawr i wella'r dehongliad cyd-destunol o geisiadau defnyddwyr ac i ganiatáu ymatebion sy'n fwy sgyrsiol, naturiol a pherthnasol.


[21] RAJAR Ch3 2024
[22] Yn ôl Traciwr Technoleg Ofcom, roedd 43% o ddefnyddwyr cerbydau yn gallu ffrydio cynnwys sain drwy'r rhyngrwyd yn eu car yn 2024 a dywedodd 24% fod ganddynt gynorthwyydd llais yn y car.
[23] RAJAR Ch3 2024

### Defnyddio gwahanol gynorthwywyr llais yn y DU

3.6 Fe wnaethom gomisiynu ymchwil defnyddwyr ym mis Medi 2024 i ddeall pa gynorthwywyr llais sy’n cael eu defnyddio yn y DU a sut mae pobl yn eu defnyddio.[24] Mae hanner y defnyddwyr dyfeisiau cysylltiedig yn yr ymchwil yn dweud eu bod wedi defnyddio cynorthwyydd llais yn ystod y tri mis diwethaf (51%).

3.7 Canfu ein hymchwil (sydd wedi’i nodi yn Ffigur 3) fod 60% o ddefnyddwyr cynorthwywyr llais yn defnyddio Amazon Alexa, ddwywaith y nifer a ddywedodd eu bod yn defnyddio Google Assistant (30%) ac Apple Siri (28%). Roedd llai o lawer yn defnyddio cynorthwywyr llais eraill, gan gynnwys Bixby Samsung (5%) a Microsoft Cortana (2%).

**Ffigur 3: Canran y defnyddwyr cynorthwywyr llais sy’n defnyddio pob cynorthwyydd llais yn y DU**




*Ymchwil Ofcom i Frandiau Cynorthwywyr Llais, Medi 2024.*
*Ch3. Pa gynorthwyydd/cynorthwywyr llais ydych chi wedi eu defnyddio [yn ystod y 3 mis diwethaf]? Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Sail: Pawb sydd wedi defnyddio cynorthwyydd llais yn y tri mis diwethaf (2070). Sylwch: Daeth Cortana gan Microsoft i ben yn ystod haf 2024, pan ddaeth swyddogaeth Cortana i ben yn Outlook. Cafodd ei gynnwys yn yr ymchwil oherwydd gofynnwyd i ymatebwyr ystyried eu defnydd o gynorthwywyr llais yn ystod y 3 mis diwethaf.*

3.8 Dywedodd lleiafrif sylweddol o ddefnyddwyr cynorthwywyr llais wrthym eu bod yn defnyddio cynorthwywyr llais i wrando ar y radio, ond mae gweithgareddau eraill hyd yn oed yn fwy poblogaidd. Dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (43%) o ddefnyddwyr cynorthwywyr llais wrthym eu bod wedi defnyddio cynorthwyydd llais i gael gafael ar radio ar ddyfais gysylltiedig yn ystod y tri mis blaenorol, o’i gymharu â 62% ar gyfer gwrando ar gerddoriaeth arall a 54% ar gyfer tasgau eraill.

# Beth yw gwasanaeth dethol radio?

## Mae gwasanaethau dethol radio yn is-set o gynorthwywyr llais

[24] Ymchwil Ofcom i Frandiau Cynorthwywyr Llais, Medi 2024

3.9 Mae Deddf y Cyfryngau yn diffinio bod RSS yn *"wasanaeth a ddarperir drwy gyfrwng y rhyngrwyd sy'n galluogi, neu ymhlith pethau eraill yn galluogi, defnyddiwr y gwasanaeth—*

*a) i ddewis rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, a*
*b) gwneud i wasanaeth radio penodol ar y rhyngrwyd chwarae,*
*c) drwy roi gorchmynion llafar sy'n cael eu recordio gan offer sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd."*[25]

3.10 Mae RSS yn fath o gynorthwyydd llais sy'n galluogi cynulleidfaoedd i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn dilyn gorchymyn llais. Mae modd cael gafael ar wasanaethau cynorthwywyr llais drwy ddyfeisiau fel seinyddion clyfar a ffonau clyfar; ond mae'n bwysig bod yn glir nad yw'r dyfeisiau hyn ynddynt eu hunain yn RSS. Byddai RSS y gellir ei ddefnyddio at sawl diben arall - er enghraifft, mae rhai pobl yn defnyddio cynorthwywyr llais i osod amserydd, darparu gwybodaeth neu gadw nodiadau a memos - yn dal i gael ei ystyried yn RSS cyn belled â'i fod yn dal i allu chwarae gwasanaethau radio rhyngrwyd. Ond ni fyddai gwasanaeth nad oedd yn gallu chwarae gwasanaeth radio rhyngrwyd mewn ymateb i orchymyn llais yn bodloni'r diffiniad o RSS o dan y Ddeddf. Er enghraifft, pan fydd defnyddiwr yn gofyn am wasanaeth radio ond mai dim ond dolen i'w chlicio gall y gwasanaeth hwnnw ei dychwelyd yn hytrach na gwneud iddo chwarae, ni fyddai hyn yn dod o fewn cwmpas y diffiniad presennol. Yr hyn sy'n gwahaniaethu RSS oddi wrth gynorthwywyr llais eraill yw gallu defnyddiwr i ofyn am wasanaeth radio rhyngrwyd drwy orchymyn llafar ac iddo gael ei chwarae o ganlyniad.

[25]Adran 362BA y Ddeddf.

# 4. Egwyddorion a dulliau ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol

4.1 Yn yr adran hon rydym yn trafod y fframwaith rydym yn cynnig ei ddefnyddio pan fyddwn yn paratoi ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddynodi RSS.

4.2 Fel yr eglurir yn Adran 2, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi RSS drwy reoliadau. Dim ond ar ôl cael adroddiad gan Ofcom yn nodi ein hargymhellion ar arfer y pŵer dynodi y caiff wneud rheoliadau dynodi.[26]

4.3 Dim ond os yw o'r farn bod lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn sylweddol neu'n sylweddol mewn rhai amgylchiadau, megis tra mewn cerbyd y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi RSS.[27]

## Datblygu ein dull o ymdrin â'r egwyddorion a'r dulliau

4.4 Yn ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i ni asesu: (a) nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio RSS penodol; (b) sut mae'r RSS hwnnw'n cael ei ddefnyddio; c) a yw lefel y defnydd yn sylweddol; a d) unrhyw faterion eraill rydym yn ystyried sy'n debygol o effeithio ar ffactorau a) i c).[28]

## Nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth a sut maen nhw'n ei ddefnyddio

4.5 Rhaid i'n hadroddiad gynnwys asesiad o nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio RSS penodol.

4.6 Fel sy'n cael ei egluro yn Adran 3, ni fydd holl ddefnyddwyr RSS yn ei ddefnyddio i ffrydio radio. Efallai fod rhai ond yn defnyddio RSS i reoli offer cartref clyfar, gosod larymau neu chwilio am wybodaeth ar-lein. Efallai fod y rhai sy'n defnyddio RSS i wrando ar gynnwys sain yn dewis ffrydio cerddoriaeth neu wrando ar bodlediadau, yn hytrach na radio byw. Gan fod pwerau dynodi'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu "defnyddio gan nifer sylweddol o aelodau o'r cyhoedd i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd", a chan fod y gofynion o dan y drefn newydd yn ymwneud â defnyddio RSS i wrando ar IRS,[29] rydym yn ystyried mai dim ond y bobl hynny sy'n defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd sy'n berthnasol.

4.7 Mae mabwysiadu technoleg cynorthwyydd llais yn eang yn dal yn gymharol newydd. O ganlyniad, nid oes hyd yma un mesur sydd ar gael i'r cyhoedd o nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y DU sy'n defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd angen un neu fwy procsi.

---

[26] Adran 362BB (3) o'r Ddeddf.
[27] Adran 362BB (2) o'r Ddeddf.
[28] Adran 362BC (4) o'r Ddeddf.
[29] Gweler yr esboniad o "wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol" yn y fframwaith cyfreithiol yn Atodiad 2.

4.8 Wrth wneud ein hargymhellion, rydym yn cynnig defnyddio'r data gorau sydd ar gael ar y pryd yn ein barn ni i roi sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd ac i egluro pam ein bod wedi gwneud hynny. Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob RSS i sicrhau triniaeth deg.

4.9 Rhaid i'n hadroddiad hefyd gynnwys ein hasesiad o sut mae RSS yn cael ei ddefnyddio i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Rydym yn ystyried bod y ffordd o'i ddefnyddio yn golygu'r gwahanol ffyrdd mae modd defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Er enghraifft, gallai hyn ymwneud â lle mae gwrando'n digwydd (fel yn y cartref, mewn cerbyd); pa mor aml mae aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd a pha mor hir mae sesiynau gwrando'n para.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad:**

C1. Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig i asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd a'r ffordd maen nhw'n defnyddio'r RSS?

## Ffynonellau data i fesur nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth a sut maen nhw'n ei ddefnyddio yn ein hadroddiad cyntaf

4.10 Rydym wedi bod yn ystyried y ffynonellau data y gallem eu defnyddio yn ein hadroddiad cyntaf i asesu nifer y defnyddwyr a'r ffordd mae'r bobl hyn yn defnyddio'r gwasanaeth. Fel y nodir yn Adran 3, mae patrymau gwrando yn esblygu wrth i fwy a mwy ddefnyddio dyfeisiau fel seinyddion clyfar sy'n cynnwys technoleg cymorth llais – roedd gan tua un aelwyd o bob pump (22%) seinydd clyfar yn 2020, gan godi i bedwar o bob deg (41%) erbyn dechrau 2024, ac roedd gan ychydig o dan hanner y rheini (46%) ddau neu fwy.[30] O ystyried y newidiadau hyn, efallai byddwn yn rhoi pwys arbennig ar ddata cyfredol a diweddar, yn hytrach na ffynonellau data hanesyddol, ac efallai byddwn yn ystyried ystod eang o wybodaeth. Y ddau brif gategori o ffynonellau rydym wedi'u nodi yw data gan y gynulleidfa a data gan y diwydiant.

4.11 Mae'r data gan y gynulleidfa'n golygu cyfuniad o ffynonellau data a ddaw o arolygon cynulleidfaoedd. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon trydydd parti sefydledig ar gyfer data sy'n mesur gwrando ar radio a sain ar-lein: RAJAR[31] ac IPA TouchPoints.[32] Mae Ofcom eisoes yn defnyddio'r setiau data hyn yn ein gwaith presennol, i gael cyd-destun a dealltwriaeth barhaus am y diwydiant, ac wrth adrodd ar arferion gwrando ar y radio.[33] Rydym hefyd yn cynnal ein hymchwil defnyddwyr ein hunain, fel ein Traciwr Technoleg blynyddol, ein harolygon Sain a Phodlediadau blynyddol, ochr yn ochr ag ymchwil ansoddol a meintiol pwrpasol rydym yn ei gomisiynu.

4.12 Mae data arolwg gan y gynulleidfa yn rhoi gwybodaeth am ddefnydd yr unigolion a holwyd o wasanaethau cynorthwywyr llais i gael gafael ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Mae'n

[30] Cyfryngau'r Genedl 2022 a 2024.
[31] RAJAR
[32] IPA | TouchPoints
[33] Mae ein hadroddiadau rheolaidd ar wrando sain wedi'u cynnwys yn Cyfryngau'r Genedl 2024 a'n Hadroddiad Sain.

golygu ein bod yn gallu edrych ar ddefnydd yn ôl dyfais ac mewn lleoliadau gwahanol fel y cartref ac mewn cerbydau. Mae ar gael i'r diwydiant yn ogystal ag i Ofcom, a fyddai'n helpu i roi tryloywder i'n dulliau o gyfrifo defnydd a dull y defnydd hwnnw ac mae rhanddeiliaid y diwydiant yn ei ddeall yn dda. Ar y llaw arall, gan fod ffynonellau sy'n seiliedig ar arolwg yn mesur defnydd a adroddir, nid ydynt yn debygol o ddweud wrthym am nifer y ceisiadau am wasanaethau radio rhyngrwyd a wneir gan ddefnyddwyr RSS, na nifer go iawn y ffrydiau radio rhyngrwyd a ddarperir i ddefnyddwyr mewn ymateb i geisiadau o'r fath.

4.13 Prif elfen mesur RAJAR yw dyddiadur mae unigolion yn ei lenwi eu hunain gan gofnodi faint o radio byw maent yn gwrando arno drwy gydol y dydd, gan gynnwys eu lleoliad (h.y. gartref, mewn car/fan/lori, yn y gwaith/rhywle arall) a'r llwyfannau maent yn eu defnyddio i wrando (h.y. ar AM/FM, DAB, DTV, seinyddion clyfar, neu ar-lein arall) am saith diwrnod. Mae'r data hwn ar lefel yr ymatebwyr wedyn yn cael ei gyfuno a'i gyfrifo ar gyfartaledd dros gyfnod o dri mis.[34] Mae dyddiadur saith diwrnod IPA TouchPoints yn gofyn i ymatebwyr gofnodi eu defnydd o'r cyfryngau drwy gydol y dydd yn ôl math (e.e. cerddoriaeth wedi'i ffrydio, radio, podlediad), dyfais (e.e. seinyddion clyfar) a gwasanaeth (e.e. Spotify, Apple Music ac ati).

4.14 Mae data RAJAR yn canolbwyntio ar wrando'n fyw ar wasanaethau radio darlledu trwyddedig. Mae RAJAR yn cofnodi faint sy'n gwrando ar ffrydiau ar-lein y gwasanaethau radio darlledu hynny ac, i raddau mwy cyfyngedig, faint sy'n gwrando ar wasanaethau radio ar-lein eraill. Mae'n mesur y gwrando drwy seinyddion clyfar, yn ogystal â mathau o wrando ar-lein, fel gwrando drwy apiau a phorwyr. Mae TouchPoints yn cwmpasu ystod ehangach o fathau o sain ar draws gwahanol ddyfeisiau a gwasanaethau sain. Ar eu pen eu hunain, nid yw RAJAR nac IPA TouchPoints yn rhoi darlun cyflawn o wrando ar radio a ysgogir gan lais ar draws dyfeisiau cysylltiedig; gallai dull cyfansawdd roi mesur mwy cadarn o'r defnydd o IRS drwy RSS gan ei fod yn caniatáu i ni wirio canfyddiadau ar draws ffynonellau data ategol.

4.15 Mewn perthynas â data gan y diwydiant, rydym yn deall bod gweithredwyr RSS a radio yn cadw data ar geisiadau gan eu defnyddwyr/gwrandawyr, a'r ffrydiau a ddarperir mewn ymateb i geisiadau o'r fath. Cawn ar ddeall y gall hyn gynnwys data cyfanredol ar nifer y ffrydiau sy'n cael eu cychwyn, nifer y ceisiadau a wneir, a sylfaen defnyddwyr gwasanaethau o'r fath. Gallai'r data hwn roi gwybodaeth go iawn am nifer y ffrydiau cynnwys sain sy'n cael eu cychwyn, am faint o amser y derbyniwyd y ffrydiau hynny, a mesur nifer y defnyddwyr neu'r cyfrifon sy'n gysylltiedig â'r ffrydiau hynny. Gallai data o'r fath fod yn fesur gwell o nifer y bobl sy'n rhoi gorchmynion llais i bob RSS, oherwydd bod yn rhaid i ddefnyddwyr greu cyfrif neu broffil i ddefnyddio llawer ohonynt. Cyn cynhyrchu ein hadroddiad cyntaf, rydym yn ystyried rhinweddau gwahanol ffynonellau ac yn ystyried gofyn am wybodaeth gan y diwydiant i helpu i lywio ein dull gweithredu.

4.16 Efallai nad y sawl sy'n rhoi gorchmynion llais i RSS i ofyn am wasanaeth radio rhyngrwyd yw'r unig un sy'n gwrando ar y gwasanaeth hwnnw. Mae radio'n aml yn cael ei fwynhau ar y cyd yn y cartref, yn y gweithle, neu mewn cerbyd sy'n cael ei rannu gan yrrwr a'i deithwyr, yn ogystal â chan bobl yn unigol. Rydym o'r farn y gallai'r ddau fath o ddefnyddiwr (y rai sy'n gwneud y gorchymyn llais a'r gwrandawyr) fod yn berthnasol yn ein dadansoddiad.

[34] Ers Ch3 2021, mae RAJAR wedi defnyddio methodoleg hybrid sy'n defnyddio tair cydran casglu data: sampl dyddiadur sy'n cynnwys tua 15,000 o oedolion 15 oed a hŷn yn y DU sy'n llenwi dyddiadur 7 diwrnod; panel parhaus o tua 5,000 o gyfranogwyr yn darparu data gwrando goddefol ar sail ap; a sampl dyddiadur wedi'i dargedu o tua 1,000 o gyfranogwyr i hybu cynrychiolaeth o bobl ifanc a grwpiau lleiafrifoedd ethnig dethol. Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg RAJAR ar gael ar wefan RAJAR.

**Cwestiwn Atodol:**

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar y ffynonellau data posibl rydym yn ystyried eu defnyddio yn ein hadroddiad cyntaf i asesu nifer y defnyddwyr a sut maen nhw'n ei ddefnyddio.

## Lefel sylweddol o ddefnydd

4.17 Rhaid i'n hadroddiad gynnwys ein hasesiad ynghylch a yw lefel y defnydd o RSS yn sylweddol.

4.18 Nod Rhan 6 yw sicrhau, wrth i dechnoleg esblygu ac wrth i wrando ar y radio newid i lwyfannau newydd, bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i gael gafael ar y gwasanaethau radio maen nhw eu heisiau. Wrth i wrando drwy lwyfannau sy'n cael eu hysgogi gan lais dyfu, mae sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar wasanaethau radio ar y llwyfannau hyn yn chwarae rhan bwysig o ran galluogi cynulleidfaoedd i barhau i elwa o fanteision personol a chymdeithasol radio'r DU (fel ar gyfer adloniant, cael yr wybodaeth ddiweddaraf a chysylltu cymunedau) pan fyddant yn cael mynediad ar-lein.

4.19 Wrth wneud argymhellion ynghylch beth yw lefel 'sylweddol' o ddefnyddio RSS, byddwn yn ceisio gosod trothwy sy'n sicrhau bod gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol[35] ar gael yn eang i gynulleidfaoedd yn y DU.

4.20 Fodd bynnag, rhaid i unrhyw drothwy rydym yn ei argymell fod yn gymesur. Rydym yn cydnabod y bydd dynodi RSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr y gwasanaethau hynny ac y gallai hynny greu costau ychwanegol. Bydd darparwyr RSS dynodedig yn rhwym wrth ddyletswyddau statudol na chânt godi tâl amdanynt gan ddarparwyr gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â gallu defnyddwyr i ddethol ac i wneud i wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol chwarae; cyfyngiadau ar ychwanegu, troshaenu a thorri ar draws y gwasanaethau hyn; a gofynion sy'n ymwneud â'r dull sy'n cael ei ffafrio i ddethol a chwarae'r gwasanaethau hyn. Efallai na fydd argymhelliad i ddynodi RSS yn gymesur os mai dim ond ychydig o fanteision i'r gynulleidfa sy'n deillio o'r dynodiad hwnnw. Felly, byddwn yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng y manteision i'r gynulleidfa ac effaith y rhwymedigaethau rheoleiddio sy'n deillio o'r dynodiad.

4.21 Yn gyffredinol, byddem yn argymell dynodi RSS ar ba lefel bynnag rydym yn ystyried sy'n lefel sylweddol o ddefnydd, neu'n uwch na hynny. Fodd bynnag, efallai bydd rhesymau pam y byddem yn ystyried ei bod yn briodol peidio ag argymell dynodi RSS sy'n cyrraedd y trothwy. Er enghraifft, efallai na fyddem yn argymell dynodi RSS o'r fath os yw tystiolaeth yn awgrymu bod lefel y defnydd yn disgyn ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl ei ddynodi. Byddai dynodiad mewn achos o'r fath yn debygol o arwain at fanteision cyfyngedig i'r gynulleidfa ac ni fyddai hynny er budd sefydlogrwydd rheoleiddiol.

4.22 Yn ein hadroddiad, byddem yn egluro pam ein bod yn credu ei bod yn briodol dynodi RSS sy'n bodloni'r trothwy sylweddol. Byddem hefyd yn egluro pam ein bod yn credu ei bod yn briodol peidio â dynodi RSS o'r fath.

---

[35] Mae gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol yn cael eu diffinio yn adran 362BG o'r Ddeddf.

4.23 Rydym yn cydnabod bod yr hyn sy'n lefel 'sylweddol' o ddefnydd yn dibynnu ar gyd-destun ac y gallai newid dros amser oherwydd amodau'r farchnad. O'r herwydd, gallai'r hyn rydym yn ei ystyried yn lefel sylweddol o ddefnydd ar un adeg newid yn y dyfodol. Rydym yn cynnig y byddai ein hasesiad o 'sylweddol' yn ystyried hyn wrth i ni baratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol yn y dyfodol.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad:**

C2. Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu a yw lefel defnydd RSS yn sylweddol?

## Materion perthnasol ychwanegol

4.24 Yn ein hadroddiad, rhaid i ni hefyd gynnwys ein hasesiad o "faterion rydym yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion uchod" – h.y. materion sy'n debygol o effeithio ar ein hasesiad o nifer y defnyddwyr RSS; sut caiff yr RSS ei ddefnyddio; ac a yw lefel y defnydd yn sylweddol.

4.25 Rydym yn cynnig penderfynu fesul achos a oes unrhyw faterion ychwanegol y byddai'n briodol i ni eu hystyried, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol. Gall y materion hyn gynnwys: pwysigrwydd y defnydd mewn amgylchiadau penodol, fel gwrando mewn gwahanol leoliadau (fel yn y cartref neu mewn cerbyd) neu drwy ddyfeisiau gwahanol; dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf; neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar wasanaethau radio drwy'r RSS. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau pan fyddwn yn cynhyrchu ein hadroddiadau. Byddwn hefyd yn ystyried pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi gwasanaeth dethol radio os yw lefel y defnydd yn sylweddol mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, tra mewn cerbyd fel y cyfeirir ato yn Adran 362BB(2)).

4.26 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd, yn ogystal â'r ffynonellau data y gallem eu defnyddio i fesur a yw'r lefel yn sylweddol, efallai byddwn yn penderfynu cynnal ymchwil ychwanegol os credwn y byddai'n ddefnyddiol i lywio ein hasesiad.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad:**

C3: Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu unrhyw faterion perthnasol?

C4. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer yr egwyddorion cyffredinol yn ein hatodiad datganiad egwyddorion a dulliau?

# A1. Datganiad Drafft o Egwyddorion a Dulliau

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

A1.1 Y ddogfen hon yw'r Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau i'w defnyddio gan Ofcom wrth baratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch dynodi gwasanaethau dethol radio o dan adran 362BC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"). Mae Adran 362BC(7) o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn llunio ac yn cynnal datganiad sy'n nodi'r egwyddorion a'r dulliau hyn.

## Y fframwaith cyfreithiol

A1.2 Nod y drefn gwasanaeth dethol radio yn Rhan 3B o'r Ddeddf yw sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar ffrydiau ar-lein o wasanaethau radio'r DU mewn amgylchiadau penodol, sef pan fydd gwrandawyr yn defnyddio eu llais i ofyn am wasanaeth dethol radio (byddwn yn egluro beth yw gwasanaeth dethol radio yn yr adran ganlynol). Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig sicrhau pan fydd gwrandawyr yn gofyn am wasanaeth radio penodol yn y DU, bod y gwasanaeth dethol radio yn chwarae'r gwasanaeth hwnnw.[36] Mae'r drefn hefyd yn rhoi gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig sy'n ymwneud â throshaenu neu darfu ar y ffrwd ar-lein gyda chynnwys arall,[37] a'r dull a ddefnyddir i chwarae'r ffrwd ar-lein.[38] Mae'r gofynion hyn yn amodol ar ddewisiadau a osodir gan ddefnyddwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig.[39] Ar ben hynny, mae darparwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig wedi'u gwahardd rhag codi tâl ar ddarparwyr ffrydiau ar-lein gorsafoedd radio yn y DU am wneud yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r drefn.[40]

A1.3 Mae ffrydiau ar-lein o wasanaethau radio yn cael eu galw'n "wasanaethau radio rhyngrwyd".[41] Yn gryno, mae'r drefn gwasanaeth dethol radio yn berthnasol i wasanaethau radio rhyngrwyd sy'n cyfateb[42] i wasanaethau radio analog neu DAB yn y DU sy'n cael eu darparu gan y BBC neu sy'n cael eu darparu o dan drwydded darlledu a roddir gennym ni.[43] Mae'r rhain yn cael eu galw yn "wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol" a byddant yn cael eu cynnwys mewn rhestr a gedwir gennym ni.[44]

A1.4 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddynodi gwasanaethau dethol radio penodol.[45] Yr unig adeg caiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer hwn yw os yw'n credu

[36] Adran 362BI (1) o'r Ddeddf.
[37] Adran 362BI (2) o'r Ddeddf.
[38] Adran 362BI(3), (4) a (5) o'r Ddeddf.
[39] Adran 362BI (5) y Ddeddf
[40] Adran 362BI (6) o'r Ddeddf.
[41] Mae "gwasanaeth radio rhyngrwyd" yn cael ei ddiffinio yn adran 362BF o'r Ddeddf.
[42] Mae ystyr "cyfateb" wedi'i nodi yn adran 362BG(4) o'r Ddeddf.
[43] Mae'r categorïau penodol o wasanaethau radio analog a DAB sydd o fewn cwmpas y drefn wedi'u nodi yn adran 362BI(11).
[44] Mae "gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol" yn cael ei ddiffinio yn adran 362BG o'r Ddeddf.
[45] Adran 362BB (1) o'r Ddeddf.

bod lefel “sylweddol” o bobl yn defnyddio’r gwasanaeth dethol radio yn y DU i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Gall hyn fod yn lefel o ddefnydd mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn ei hystyried sy’n sylweddol mewn rhai amgylchiadau, megis tra mewn cerbyd.[46]

A1.5 Rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom cyn gwneud neu ddiwygio rheoliadau dynodi.[47] Rhaid i’n hadroddiad nodi argymhellion ar sut y dylai’r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bwerau gwneud rheoliadau. Efallai y byddwn yn penderfynu paratoi adroddiad o’r fath ar ein liwt ein hunain.[48] Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ni baratoi adroddiad, ac os felly rhaid i ni wneud hynny cyn gynted ag sy’n ymarferol.[49]

A1.6 Mae’r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy’n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn hysbysu’n hadroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol.[50] Mae’r pwerau hyn yn caniatáu i Ofcom fynnu bod y sawl sy’n derbyn y cais yn cael neu’n cynhyrchu gwybodaeth.[51]

A1.7 Rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a’r dulliau y bydd yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol. Y ddogfen hon yw’r datganiad hwnnw. Cawn ddiwygio neu ddisodli’r datganiad hwn.[52]

A1.8 Mae fframwaith cyfreithiol manylach yn Atodiad 2.[53]

# Egwyddorion a dulliau ar gyfer paratoi ein hadroddiad ar ddynodi gwasanaethau dethol radio

## Beth yw gwasanaeth dethol radio?

A1.9 Mae gwasanaeth dethol radio neu RSS yn wasanaeth sy’n cael ei ddarparu drwy’r rhyngrwyd sy’n galluogi (neu ymysg pethau eraill sy’n galluogi) y defnyddiwr i wneud y pethau canlynol drwy roi “gorchmynion llafar” sy’n cael eu recordio gan offer sydd wedi’i gysylltu â’r rhyngrwyd:

a) dewis rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, a
b) gwneud i wasanaeth radio penodol ar y rhyngrwyd chwarae.[54]

A1.10 Er mwyn dod o fewn y diffiniad o RSS, rhaid i wasanaeth allu chwarae gwasanaethau radio rhyngrwyd mewn ymateb i orchymyn llais gan ddefnyddiwr. Ni fyddai gwasanaethau nad ydynt yn chwarae ffrydiau uniongyrchol o wasanaethau radio rhyngrwyd (er enghraifft, y

[46] Adran 362BB (2) o’r Ddeddf.
[47] Adran 362BB (3) o’r Ddeddf.
[48] Adran 362BC (1) o’r Ddeddf.
[49]Adran 362BC(2) a (3) y Ddeddf.
[50]Adran 362BQ y Ddeddf.
[51] Adran 362BQ (2) o’r Ddeddf.
[52]Adran 362BC(7) a (8) y Ddeddf.
[53] At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae Atodiad 2 yn gweithredu fel y fframwaith cyfreithiol ar gyfer y ddogfen ymgynghori a’r datganiad drafft hwn. Bydd y fframwaith cyfreithiol yn cael ei atodi i fersiwn derfynol y datganiad hwn pan gaiff ei gyhoeddi.
[54] Adran 362BA (1) o’r Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r diffiniad o “wasanaeth dethol radio” o dan adran 362BA(2) o’r Ddeddf. Bydd Ofcom yn defnyddio’r diffiniad sydd mewn grym adeg paratoi adroddiad.

rheini sydd ond yn gallu darparu dolenni i ddefnyddwyr gael mynediad at ffrydiau radio) yn bodloni'r diffiniad o 'wasanaeth dethol radio' o dan y Ddeddf.

## Sut bydd Ofcom yn gwneud asesiadau

A1.11 Mae adran 362BC(3) o'r Ddeddf yn nodi'r materion mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth baratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion ynghylch arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi RSS. Rhaid i adroddiad a baratoir gan Ofcom gynnwys asesiad, mewn perthynas â phob RSS dan sylw, o'r canlynol:

a) nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
b) sut mae'r bobl hynny'n defnyddio'r gwasanaeth;
c) a yw lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn sylweddol; a
d) materion mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a), (b) neu (c).[55]

A1.12 Rydym yn nodi isod yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu'r materion hyn.

### (a) Nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth

A1.13 Bydd Ofcom yn asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd.[56] Er mwyn cyflawni hyn:

a) Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio pob RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd.

b) Os ydym o'r farn na ellir mesur nifer y defnyddwyr unigol yn ddibynadwy, gallwn ddefnyddio procsi ar gyfer niferoedd y defnyddwyr. Efallai byddwn yn defnyddio dull sy'n golygu cyfuno mwy nag un metrig neu brocsi.

c) Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob RSS i sicrhau triniaeth deg.

### (b) Sut mae'r bobl hynny'n defnyddio'r gwasanaeth

A1.14 Yn gyffredinol byddwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd mae modd defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Efallai byddwn yn ystyried ystod eang o wybodaeth (fel lle mae'r gwrando'n digwydd (cartref, car ac ati), pa mor aml ac am ba hyd mae defnyddwyr yn gwrando ar radio rhyngrwyd) yn ein dull gweithredu.

### (c) A yw lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn sylweddol

A1.15 Byddwn yn gosod trothwy sy'n sylweddol yn ein barn ni:

a) Wrth osod y trothwy hwn, byddwn yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol ar gael yn eang i ddefnyddwyr RSS.

b) Byddwn yn ystyried yn gyffredinol pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod sylweddol yn

[55] Adran 362BC o'r Ddeddf.
[56] Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod lefel y defnydd o RSS yn y DU i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn sylweddol er mwyn ei ddynodi (adran 362BB(2) o'r Ddeddf).

dibynnu ar gyd-destun. O'r herwydd, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion blaenorol, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddir yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.

c) Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn ystyried y bydd dynodi RSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr RSS.

A1.16 Yn gyffredinol, byddwn yn argymell dynodi RSS ar drothwy rydym yn ystyried sy'n lefel sylweddol o ddefnydd, neu'n uwch na hynny. Fodd bynnag, o ystyried yr egwyddorion a'r dulliau eraill yn y datganiad hwn, efallai byddwn yn ystyried ei bod yn briodol peidio ag argymell dynodi RSS o'r fath. Er enghraifft, efallai na fyddem yn argymell dynodi RSS os yw tystiolaeth yn awgrymu bod lefel y defnydd yn disgyn ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl ei ddynodi. Byddwn yn egluro pam rydym wedi argymell neu nad ydym wedi argymell dynodi RSS sydd ar y trothwy neu'n uwch na hynny.

### (d) Unrhyw faterion eraill mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar yr uchod

A1.17 Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.[57]

A1.18 Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar wasanaethau radio drwy'r RSS. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau pan fyddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn hefyd yn ystyried pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi gwasanaeth dethol radio os yw lefel y defnydd yn sylweddol mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, tra mewn cerbyd fel y cyfeirir ato yn adran 362BB(2)).

## Egwyddorion cyffredinol

A1.19 Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad a sut mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn.

A1.20 Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau i'r rhai a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau, byddwn yn egluro pam ein bod wedi gwneud hyn.

A1.21 Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362BQ y Ddeddf i gasglu tystiolaeth i lywio ein hadroddiad.

A1.22 Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.[58]

[57] Mae ein dyletswyddau statudol perthnasol wedi'u nodi yn yr atodiad i'r datganiad hwn.
[58] Adran 362BC (5) o'r Ddeddf.

# A2. Fframwaith Cyfreithiol

## Fframwaith Cyfreithiol

A2.1 Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer dynodi gwasanaethau dethol radio (RSS) o dan Ran 3B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 6 o Ddeddf Cyfryngau 2024. Dim ond crynodeb o'r darpariaethau perthnasol yw'r Atodiad hwn, nid yw'n cymryd lle cyfeirio at y statud.

A2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom hefyd yn berthnasol o ran cyflawni ei swyddogaethau, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[59] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys pa mor ddymunol yw hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol.[60]

A2.3 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.[61]

A2.4 Fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod, bydd yn rhaid i RSS a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (RSS neu DRSS dynodedig) gydymffurfio ag amrywiol rwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol. [62]

## Gwasanaethau dethol radio

A2.5 Mae'r Ddeddf yn diffinio bod RSS yn "wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd sy'n galluogi, neu ymysg pethau eraill sy'n galluogi, defnyddiwr y gwasanaeth—(a) i ddewis rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd[63] a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, a (b) gwneud i wasanaeth radio rhyngrwyd a ddewisir chwarae, drwy roi gorchmynion llafar sy'n cael eu recordio gan offer sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd."[64]

A2.6 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddynodi "gwasanaeth dethol radio".[65] Mae'r diwygiadau caiff yr Ysgrifennydd Gwladol eu gwneud yn cynnwys ychwanegu, dileu neu newid rhywbeth mae gwasanaeth dethol radio yn galluogi defnyddiwr i'w wneud.[66]

[59] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[60] Adran 3(4)(a) o'r Ddeddf.
[61] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[62]Adran 362BI o'r Ddeddf.
[63] Mae adran A62BF o'r Ddeddf yn diffinio gwasanaeth radio rhyngrwyd fel "gwasanaeth, neu adran ddatgysylltiol o wasanaeth, sy'n cynnwys darparu gan berson raglenni sy'n cynnwys sain yn unig (ynghyd ag unrhyw wasanaethau ategol) gyda'r bwriad o sicrhau eu bod ar gael i'w derbyn gan aelodau o'r cyhoedd drwy gael eu dosbarthu drwy gyfrwng y rhyngrwyd (boed hynny gan ddarparwr y gwasanaeth neu berson arall)".
[64] Adran 362BA (1) o'r Ddeddf.
[65] Adran 362BA (2) o'r Ddeddf.
[66] Adran 362BA (3) o'r Ddeddf.

## Gwasanaethau dethol radio dynodedig

A2.7 Mae "gwasanaeth dethol radio dynodedig" (DRSS) yn wasanaeth dethol radio sydd wedi'i ddynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau.[67]

A2.8 Dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn sylweddol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi gwasanaeth dethol radio (a chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod lefel y defnydd yn sylweddol os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei fod yn sylweddol mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft tra mewn cerbyd).[68]

## Adroddiad Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol

A2.9 Cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu gwneud rheoliadau sy'n dynodi RSS, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom, sy'n cynnwys argymhellion Ofcom ar ymarfer pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i ddynodi'r gwasanaeth dethol radio dan sylw.[69]

A2.10 Efallai y bydd Ofcom yn penderfynu ar ei liwt ei hun i ddarparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.[70] Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiad gan Ofcom, ac os felly mae'n rhaid i ni baratoi un cyn gynted ag sy'n ymarferol.[71]

A2.11 Rhaid i adroddiad Ofcom gynnwys ein hasesiad o'r canlynol, mewn perthynas â phob gwasanaeth dethol radio dan sylw—

a) nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth;

b) sut mae'r bobl hynny'n defnyddio'r gwasanaeth;

c) a yw lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn sylweddol;

d) materion rydym yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a), (b) neu (c).[72]

A2.12 Rhaid i Ofcom ddarparu adroddiad o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i ni hefyd ei gyhoeddi.[73]

A2.13 Mae rôl Ofcom o ran paratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i chyfyngu i argymhellion ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi RSS. Nid oes pŵer statudol i Ofcom ei hun ddynodi RSS.

A2.14 Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer ei bŵer i ddynodi mewn modd sy'n wahanol i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Ofcom, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi, heb fod yn hwyrach na'r amser y gwneir y rheoliadau, ddatganiad o'r rhesymau dros wneud hynny.[74]

---

[67] Adran 362BB (1) o'r Ddeddf.
[68] Adran 362BB (2) o'r Ddeddf.
[69] Adran 362BC(2)(a) o'r Ddeddf.
[70] Adran 362BC (1) o'r Ddeddf.
[71]Adran 362BC(2) a (3) y Ddeddf.
[72] Adran 362BC (4) o'r Ddeddf.
[73] Adran 362BC (5) o'r Ddeddf.
[74] Adran 362BC (6) o'r Ddeddf.

## Datganiad Ofcom o egwyddorion a dulliau

A2.15 Rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau byddwn yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud argymhellion am arfer ei bwerau i wneud rheoliadau dynodi.

A2.16 Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwnnw a rhaid inni gyhoeddi'r datganiad diwygiedig neu'r datganiad newydd.[75]

## Rhestr o wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol

A2.17 Mae'r drefn newydd yn mynnu bod darparwyr RSS dynodedig yn cydymffurfio â gofynion sy'n ymwneud â darparu "gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol". Mae'r rhain yn wasanaethau radio rhyngrwyd sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr a gedwir gan Ofcom.

A2.18 Dyma'r amodau mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i wasanaeth radio rhyngrwyd gael ei gynnwys ar y rhestr (a dod yn wasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol):

a) bod gan ddarparwr y gwasanaeth system neu broses effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn "cyfateb" i wasanaeth radio yn y DU sy'n cael ei ddarparu ganddynt. Mae gwasanaeth radio rhyngrwyd yn cyfateb i wasanaeth radio yn y DU os (heb ystyried hysbysebion) yw'r holl raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth radio rhyngrwyd yn cael eu darlledu ar wasanaeth radio yn y DU ar yr un pryd ag y maent yn cael eu darparu gan y gwasanaeth radio rhyngrwyd; a

b) mae darparwr gwasanaeth radio rhyngrwyd wedi rhoi hysbysiad i Ofcom yn gofyn i gynnwys y gwasanaeth ar y rhestr.

A2.19 Nid oes yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau radio yn y DU ddarparu ffrydiau ar-lein o'u gwasanaethau. Pan fydd darparwr gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol yn penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu'r ffrwd ar-lein, rhaid iddo roi gwybod i Ofcom. Byddai Ofcom yn tynnu'r gwasanaeth oddi ar y rhestr ac felly ni fyddai'n wasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol mwyach.[76]

## Effaith dynodiad

A2.20 Pan fydd RSS yn cael ei ddynodi, rhaid i ddarparwr y DRSS gydymffurfio â'r drefn newydd. Mae crynodeb o'r gofynion sy'n berthnasol i ddarparwyr DRSS wedi'i nodi isod.

A2.21 Yn gyntaf, rhaid i ddarparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dewis gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol, a gwneud iddynt chwarae, drwy roi gorchmynion llafar.[77]

A2.22 Yn ail, rhaid i ddarparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau, pan fydd y DRSS yn cael ei ddefnyddio fel y disgrifiwyd yn y paragraff blaenorol, nad oes unrhyw eitemau'n cael eu chwarae cyn y gwasanaeth radio rhyngrwyd sydd wedi cael ei ddewis, ac nad oes unrhyw

[75] Adran 362BC (8) o'r Ddeddf.
[76] Adran 362BG (5) o'r Ddeddf. Gellir tynnu'r gwasanaeth oddi ar y rhestr drwy hysbysiad gan ddarparwr y gwasanaeth; a rhaid i'r darparwr roi hysbysiad i Ofcom os yw'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth radio rhyngrwyd neu'r gwasanaeth radio cyfatebol yn y DU, neu os yw darpariaeth y gwasanaeth radio rhyngrwyd wedi dod i ben.
[77] Adran 362BI (1) o'r Ddeddf.

darfu ar y gwasanaeth radio rhyngrwyd. Mae rhai eithriadau i'r gwaharddiad ar chwarae eitemau cyn y gwasanaeth radio rhyngrwyd sydd wedi cael ei ddewis:

a) ceir chwarae darn byr i ddynodi beth yw'r gwasanaeth radio ar y rhyngrwyd a ddewiswyd;

b) os yw'r DRSS yn defnyddio gwasanaeth rhyngrwyd arall i wneud i'r gwasanaeth radio rhyngrwyd a ddewiswyd chwarae, ceir chwarae darn byr i ddynodi beth yw'r gwasanaeth rhyngrwyd arall hwnnw; a

c) gellir chwarae un neu fwy o hysbysebion, os yw darparwr y gwasanaeth radio rhyngrwyd a ddewiswyd yn cytuno.[78]

A2.23 Yn drydydd, os yw darparwr gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol yn gofyn i ddarparwr DRSS sicrhau bod y gwasanaeth yn defnyddio dull penodol o ran y gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol hwnnw, rhaid i'r darparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y dull hwnnw'n cael ei ddefnyddio wrth chwarae'r gwasanaeth radio rhyngrwyd a ddewiswyd.[79]

A2.24 Yn olaf, mae darparwyr DRSS wedi'u gwahardd rhag codi tâl ar ddarparwyr gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol am wneud yr hyn mae'n rhaid i ddarparwyr DRSS ei wneud i gydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifir uchod.[80]

A2.25 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi cod ymarfer sy'n argymell y camau y dylai darparwyr DRSS eu cymryd wrth geisio sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.[81] Mae'n rhaid i ddarparwyr DRS hefyd lunio a chyhoeddi datganiad am sut maen nhw'n bwriadu cydymffurfio â'r gofynion.[82]

## Dyletswydd twf economaidd

A2.26 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a

b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.[83]

A2.27 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod ysgogwyr twf economaidd yn cynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

---

[78] Adran 362BI (2) o'r Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr ddiystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[79]Adran 362BI(3) a (4) y Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr ddiystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[80] Adran 362BI (6) o'r Ddeddf.
[81]Adran 362BK o'r Ddeddf.
[82]Adran 362BJ o'r Ddeddf.
[83] Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.

A2.28 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A2.29 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## Dyletswydd y Gymraeg

A2.30 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A2.31 Mae'r Safonau Llunio Polisi Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

# A3. Asesiadau effaith

## Asesiad effaith

A3.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.[84]

A3.2 Mae'r Datganiad o Egwyddorion a Dulliau yn cael ei baratoi at ddibenion swyddogaeth gynghori lle bydd y penderfyniad ynghylch sut bydd yr argymhellion yn ein hadroddiad yn cael ei roi ar waith yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd cael egwyddorion clir a phriodol y byddwn yn seilio ein hadroddiad arnynt yn sicrhau y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wybodaeth lawn a phriodol i seilio ei benderfyniadau dynodi arni.

A3.3 Mae'r asesiad o effaith a gynhaliwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnwys yn Adran 4 lle rydym wedi ystyried effeithiau posibl yr egwyddorion a'r dulliau rydym yn bwriadu eu defnyddio wrth baratoi ein hadroddiad, yn ogystal ag effeithiau'r dulliau posibl y gallem eu defnyddio ar gyfer y materion y mae'r Ddeddf yn gofyn i ni eu hystyried yn ein hadroddiad.

A3.4 Byddwn yn cynnal asesiad effaith pellach wrth gynhyrchu adroddiad o argymhellion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

A3.5 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[85]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A3.6 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[86]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.7 Fel y nodir uchod, mae'r Datganiad o Egwyddorion a Dulliau yn cael ei baratoi mewn perthynas â swyddogaeth gynghori. Nid ydym yn disgwyl i'r egwyddorion a'r dulliau rydym yn eu cynnig gael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb.

---

[84] Ofcom, Canllawiau asesu effaith, 2023.

[85] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

[86] Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

A3.8 Byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Y Gymraeg

A3.9 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[87] I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[88] Yn unol â hyn, rydyn ni wedi ystyried effaith bosib ein hadolygiad ar (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A3.10 Ystyriwn na fyddai'r egwyddorion a'r dulliau rydym wedi eu cynnig yn trin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg nac yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wrth gynhyrchu ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

[87] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

[88] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 18 Mawrth 2025.

A4.2 gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb o'n gwefan. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at mediaact.part6@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. Efallai na fydd y cyfeiriad e-bost hwn yn ddilys ar ôl mis Rhagfyr 2026.

A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Tîm Rhan 6 – Deddf Cyfryngau
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A4.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A4.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 7. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A4.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i mediaact.part6@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A4.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod hanner cyntaf 2025.

A4.17 Hefyd yn 2025, byddwn yn ymgynghori ar broses hysbysu ar gyfer gwasanaethau radio rhyngrwyd a'n Cod Ymarfer sy'n ymwneud â'r darpariaethau hyn. Mae ein hamserlen ryngweithiol ar ein gwefan yn rhoi'r amseroedd diweddaraf ar y gwahanol elfennau o waith sydd eu hangen i roi Rhan 6 ar waith.

A4.18 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.19 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 5.

A4.20 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn croesawu syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.21 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A5.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A5.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A5.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A5.4 Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosib. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.

A5.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydyn ni'n cynnal ein hymgyngoriadau.

A5.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A5.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y

byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw    Llofnod (os darperir copi caled)

# A7. Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Ein cwestiynau

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad:**

C1. Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig i asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd a'r ffordd maen nhw'n defnyddio'r RSS?

C2. Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu a yw lefel defnydd RSS yn sylweddol?

C3: Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu unrhyw faterion ychwanegol?

C4. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer yr egwyddorion cyffredinol yn ein hatodiad datganiad egwyddorion a dulliau?

**Cwestiwn Atodol:**

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar y ffynonellau data posibl rydym yn ystyried eu defnyddio yn ein hadroddiad cyntaf i asesu nifer y defnyddwyr a sut maen nhw'n ei ddefnyddio.